Hawdd ei Deall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyllid ar gyfer cydraddoldeb

www.gov.wales

## Ein cynllun i roi arian i grwpiau gwirfoddol sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant

**Ebrill 2017 - Mawrth 2020**



## Rhowch wybod inni beth rydych yn feddwl erbyn 10 Gorffennaf 2015

Dyma fersiwn Hawdd ei Deall o '**Dogfen Ymgynghori: Trefniadau'r dyfodol ar gyfer Rhaglen Gydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru rhwng 2017- 2020'**

**Ebrill 2015**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Dyma fersiwn Hawdd ei Deall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Maen nhw mewn **glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl mewn blwch o dan y gair.

Os ydy'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw mewn ysgrifen glas normal. Os ydych yn gweld geiriau mewn ysgrifen glas normal, gallwch edrych i weld beth maen nhw'n feddwl yn y **rhestr o eiriau anodd** ar dudalen 14.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn fersiwn ar gyfer eich anghenion chi, neu os ydych eisiau siarad gyda ni am eich gwaith, cysylltwch gyda: Cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Adran Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful CF48 1UZ



Ffôn: 0300 062 8133

E-bost: fairerfuturesmailbox@wales.gsi.gov.uk




Gwefan: http://gov.wales/consultations/people-and-communities/equality-inclusion-programme-consultation/?skip=1&lang=cy

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Anabledd Dysgu Cymru sydd wedi gwneud y ddogfen Hawdd ei Deall yma trwy ddefnyddio Photosymbols 5

© Crown copyright 2015
WG25097

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma..........................................2**

**Cyflwyniad gan Lesley Griffiths AC.......................................4**

**Sut i ddweud beth rydych yn feddwl.....................................6**

**Beth sy'n digwydd nawr?.......................................................7**

**Ein syniadau am beth i'w wneud ar ôl Mawrth 2017...........10**

1. Rhoi 3 blynedd arall o gyllid rhwng 2017 a 2020.............10

2. Cysylltu'r cyllid gyda'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol...................................................................................11

3. Rhoi cyllid i grwpiau sydd yn gweithio ar y pethau mwyaf pwysig..........................................................................................12

4. Helpu grwpiau i weithio gyda'i gilydd..............................13

**Geirian anodd..........................................................................14**

# Cyflwyniad gan Lesley Griffiths AC



Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod Cymru yn wlad deg a chyfartal. I wneud hynny mae angen inni roi **cydraddoldeb** yng nghanol popeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod gan bawb yr un cyfle.




Rydyn ni wedi ysgrifennu rhestr o bethau mae angen inni eu gwneud fel bod Cymru yn wlad deg yn ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dweud sut rydyn ni yn bwriadu gwneud bywyd yn fwy teg yng Nghymru.



Mae grwpiau gwirfoddol yn gwneud llawer i'n helpu i wneud i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ddigwydd.




Felly rydyn ni'n meddwl ei bod yn bwysig inni eu cefnogi nhw. Rydyn ni'n gwneud hynny trwy roi cyllid i grwpiau gwirfoddol sydd yn helpu i wneud Cymru yn wlad mwy teg i fyw a gweithio ynddi.




Mae'r arian rydyn ni'n ei roi i grwpiau gwirfoddol i'n helpu gyda'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei alw'n **Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant.**

Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan ac mae gan bawb gyfle teg.




Fe fydd y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn gorffen ym mis Mawrth 2017.



Rydyn ni eisiau i chi ein helpu ni i benderfynu. Sut ddylen ni wario'r arian yma ar ôl Mawrth 2017?



Mae angen inni feddwl am sut y bydd Cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dal i helpu grwpiau gwirfoddol yn y ffordd orau.

Rhaid inni hefyd wneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r Cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant i waith sydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl yng Nghymru.



**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

# Sut i ddweud beth rydych yn feddwl




Er mwyn eich helpu i ddweud beth rydych yn feddwl rydyn ni wedi gwneud ffurflen ymateb Hawdd ei Deall i chi ei llenwi a'i hanfon yn ôl. Mae angen gwneud hynny erbyn **10 Gorffennaf 2015** i:



Cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Adran Dyfodol Tecach
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ



E-bost: fairerfuturesmailbox@wales.gsi.gov.uk



Ffôn: 0300 062 8133



Gwefan: http://gov.wales/consultations/people-and-communities/equality-inclusion-programme-consultation/?skip=1&lang=cy



Pan fyddwn wedi cael yr holl ymatebion fe fyddwn yn rhoi crynodeb ohonyn nhw ar ein gwefan. Os nad ydych eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu dangos, yna rhowch wybod inni.



Fe fyddwn ni'n cynnal digwyddiadau hefyd i ddweud wrth bobl am ein cynlluniau ac i gael gwybod beth mae pobl yn feddwl. Os ydych eisiau mynd i un o'r digwyddiadau yma, llenwch y ffurflen archebu ar-lein sydd ar gael yn.

# Beth sydd yn digwydd nawr?




Mae 16 o grwpiau gwirfoddol yn cael arian gan y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar hyn o bryd.




Mae'r grant am waith sydd yn dechrau yn 2014 ac yn gorffen yn 2017.

Fe wnaeth 191 o fudiadau wneud cais am y grant. Ond dim ond i 16 o fudiadau roedden ni'n gallu rhoi arian.



Fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod y grwpiau yn dod o bob rhan o Gymru.



Ac yn gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o ddioddef **gwahaniaethu.**

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch yn cael eich trin yn ddrwg neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

Mae'n bosibl gwahaniaethu yn erbyn llawer o grwpiau o bobl, yn cynnwys:



- dynion a menywod



- pobl anabl – sydd angen help i gerdded, clywed, gweld neu ddysgu




- pobl gyda phroblemau iechyd meddwl - sydd angen help gyda'u meddyliau neu emosiynau



- pobl o wahanol oed – pobl ifanc neu bobl hŷn



- pobl sydd yn dod o wledydd neu ddiwylliannau eraill



- pobl o wahanol grefyddau, neu rhai heb gredoau crefyddol



- menywod sydd yn feichiog neu yn bwydo ar y fron




- **menywod lesbaidd** – menywod sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill



- **dynion hoyw** – dynion sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill



- **dynion a menywod deurywiol** – pobl sydd yn caru ac yn hoffi dynion a menywod



- **pobl trawsrywiol** – pobl sydd wedi eu geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn.

Mae’r grant yn ein helpu ni i wneud yn siŵr bod y bobl yma yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd.

# Ein syniadau am beth i’w wneud ar ôl Mawrth 2017




Rydyn ni wedi siarad gyda phobl am y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant presennol.

Mae hynny wedi ein helpu i gael 4 syniad gwahanol am wella  cyllid yn y dyfodol.



Dywedwch wrthyn ni beth rydych yn feddwl am ein 4 syniad.

## 1. Rhoi 3 blynedd arall o gyllid rhwng 2017 a 2020




Rydyn ni’n meddwl y dylen ni ddal i roi arian o’r Gronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant i grwpiau gwirfoddol.







Fe fydd y cyllid yn para am 3 blynedd – fe fydd yn dechrau yn 2017 ac yn gorffen yn 2020.

Fe ddylai'r cyllid fod ar gyfer **cyllid craidd** a **prosiect**.



Mae cyllid craidd yn talu am gostau grŵp gwirfoddol o ddydd i ddydd. Mae'n talu am staff a chost rhentu swyddfa.

Mae cyllid prosiect  yn talu am ddarnau arbennig o waith y mae'r grŵp yn ei wneud.

## 2. Cysylltu'r cyllid gyda'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol




Rydyn ni'n meddwl y dylai'r cyllid ein helpu ni i gyflawni'r nodau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.




Fe fydd hyn yn helpu grwpiau gwirfoddol i wneud gwaith sydd yn cefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gwaith ydy hwn y mae pobl wedi'i ddweud wrthyn ni y maen nhw'n feddwl sydd yn bwysig.

## 3. Rhoi'r cyllid i grwpiau sydd yn gweithio ar y pethau mwyaf pwysig




Rydyn ni'n meddwl y dylen ni roi'r cyllid i grwpiau sydd yn gweithio ar y pethau mwyaf pwysig i helpu i wneud Cymru yn wlad deg a chyfartal.



Rydyn ni'n gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am y nodau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Fe fydd hyn yn ein helpu i benderfynu beth i'w wneud gyda'r arian.



Efallai y bydd hyn yn dangos bod yna rai meysydd o waith sydd yn fwyaf pwysig i bobl

Fe fyddai'r cyllid ar gael i grwpiau sydd yn gweithio yn y meysydd mwyaf pwysig yma.



Rydyn ni wedi meddwl am roi'r cyllid  dim ond i grwpiau sydd yn helpu pobl sydd yn gallu dioddef gwahaniaethu.



Er enghraifft, grŵp sydd yn helpu dynion hoyw a menywod lesbaidd.





Ond dydyn ni ddim yn meddwl y bydd hyn yn gweithio oherwydd:



- does gan bawb sydd yn gallu dioddef gwahaniaethu ddim grŵp i siarad drostyn nhw
- mae gan rai pobl sydd yn gallu dioddef gwahaniaethu fwy nag 1 grŵp i siarad drostyn nhw.



Os ydych yn meddwl yn wahanol am hyn dywedwch wrthyn ni drwy ysgrifennu ar y ffurflen ymateb.

## 4. Helpu grwpiau i weithio gyda'i gilydd



Rydyn ni'n bwriadu dweud wrth fudiadau bod angen iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i gael y cyllid.

Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn:

- helpu grwpiau gwirfoddol i weithio'n well gyda'i gilydd
- helpu grwpiau llai i wneud cais am y cyllid.

# Geiriau Anodd

### Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfle.

### Cyllid craidd
Mae cyllid craidd yn talu am gostau grŵp gwirfoddol o ddydd i ddydd. Mae'n talu am staff a chost rhentu swyddfa.

### Cyllid prosiect
Mae cyllid prosiect yn talu am ddarnau arbennig o waith y mae'r grŵp yn ei wneud.

### Cynhwysiant
Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dweud sut rydyn ni'n bwriadu gwneud bywyd yn fwy teg yng Nghymru.

### Dynion a menywod deurywiol
Pobl sydd yn hoffi ac yn caru dynion a menywod.

### Dynion hoyw
Dynion sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill.

### Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Mae'r arian rydyn ni yn ei roi i grwpiau gwirfoddol yn cael ei alw yn Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

### Gwahaniaethu
Gwahaniaethu ydy pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu yn annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.

### Menywod lesbaidd
Menyw sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill.

### Pobl trawsrywiol
Pobl sydd wedi'u geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn.